| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **14eg Mai 2026** |
| **TEITL** | **Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2026/27** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo Adolygiad Cynllun y Cyngor 2026/27** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor, Adran Gwasanaethau Corfforaethol** |

1. **Y Penderfyniad a Geisir**

1.1. Ar argymhelliad y Cabinet bod y Cyngor yn mabwysiadu **Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2026/27**.

2. **Cyflwyniad**

2.1. Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yw ein datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Mae'n cyfleu ein blaenoriaethau a'n huchelgais ar gyfer cyfnod o 5 mlynedd ynghyd â'r prosiectau y byddwn yn eu cyflawni. Mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 2ail o Fawrth 2023.

2.2. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd 2023-2028 o dan saith maes blaenoriaeth: Gwynedd Yfory, Gwynedd Lewyrchus, Gwynedd Glyd, Gwynedd Ofalgar, Gwynedd Gymraeg, Gwynedd Werdd a Gwynedd Effeithlon. Y meysydd blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ceir copi o'r fersiwn cyfredol yma - Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

2.3. Pwrpas adolygu'r Cynllun yw edrych ar lle rydym wedi cyrraedd a ninnau dros hanner ffordd trwy oes y Cynllun. Wrth edrych ar y meysydd blaenoriaeth, ein uchelgeisiau a'n prosiectau bu inni ystyried beth sydd wedi newid, wedi ei gyflawni a beth yn fwy sydd angen i ni ei wneud.

2.4. Nodir hefyd bod disgwyliad arnom i fod yn adolygu ein Hamcanion Llesiant (Meysydd Blaenoriaeth) yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol.

2.5. Yn ystod mis Ionawr cynhaliwyd 2 sesiwn gweithdy (1 ar gyfer yr Aelodau Cabinet a'r llall ar gyfer y Tîm Rheoli) i edrych ar lle'r ydym wedi ei gyrraedd ac i adolygu cynnwys y Cynllun presennol. Cynhaliwyd sesiwn pellach i'r Aelodau Cabinet ar y 12fed o Chwefror er mwyn ystyried y materion a godwyd yn y 2 sesiwn gyntaf a chytuno ar addasiadau i fersiwn 2026/27 o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

2.6. Mynychodd dros 20 o Gynghorwyr sesiwn gweithdy ar 24 Chwefror, lle'r oedd cyfle iddynt roi sylwadau ar y newidiadau a gynigir i'r Cynllun fel rhan o'r adolygiad. Derbyniwyd adborth gwerthfawr ganddynt a diolch i'r aelodau a fynychodd am eu sylwadau a'u hawgrymiadau. Ceir crynodeb o'r prif faterion a nodwyd ganddynt isod. Yn gryno, mae'r rhain yn feysydd sy'n bosibl eu hymgorffori o fewn prosiectau presennol y Cynllun drwy ychwanegu camau gweithredu neu gerrig milltir.

- **Mwy o bwyslais ar greu swyddi a gwaith o safon ledled y Sir. –** hyn eisoes yn derbyn sylw gan brosiectau o fewn y Maes Blaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus

- **Hyrwyddo a galluogi pobl anabl i weithio drwy sicrhau'r gefnogaeth a'r amgylchedd cywir.** – hyn yn derbyn sylw o fewn prosiect **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth.**
- **Cefnogaeth i rieni a gofalwyr (di-Gymraeg) plant yn y ddarpariaeth drochi fel eu bod yn gallu eu cefnogi'n hyderus.** – awgrym i gynnwys cerrig milltir o fewn y prosiect **Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi.**
- **Mwy o gyfleoedd cymdeithasol a gweithgareddau i bobl ifanc.** – mae hyn eisoes yn derbyn sylw o fewn y prosiect **Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir.**

2.7. Yn ei gyfarfod ar 10fed o Fawrth 2026 bu i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad ar **Gynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028 – Adolygiad 2026/27** fel cofnod o'r newidiadau technegol hyd yn hyn yn yr adolygiad o Gynllun y Cyngor gan ofyn am waith golygyddol pellach cyn cyflwyno'r adolygiad yn ei ffurf derfynol i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 14eg o Fai 2026.

2.8. Fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn sir sy'n gyfeillgar i blant byddwn yn datblygu fersiwn o'r Cynllun sy'n addas ac yn hawdd i blant ei ddeall.

**3. Ystyriaethau Perthnasol / Adolygu prosiectau**

3.1 I sicrhau bod y Cynllun a'i brosiectau'n parhau i gyflawni dros bobl Gwynedd ac yn ymateb i newidiadau, bu adolygiad. Dyma'r manylion.

3.1.1 **<u>Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder</u>**

- I danlinellu ymrwymiad parhaus at weithredu argymhellion adroddiad 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder', mae Cynllun Ymateb: mae Cyfiawnder Trwy ein Dewrder wedi ei gynnwys ar ddechrau Cynllun y Cyngor.
  Mae pwysigrwydd Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder yn mynnu hyn.

3.1.2. **<u>Maes Blaenoriaeth Newydd - Gwynedd Gyfartal</u>**

- Mae Cydraddoldeb a thrin pawb yn gydradd yn egwyddor bywyd holl bwysig. Rydym am sefydlu maes blaenoriaeth newydd o'r enw Gwynedd Gyfartal i bwysleisio fod hyn yn sail gwbl greiddiol i'n gwaith ni.
- Mae datblygu Gwynedd yn sir sy'n gyfeillgar i blant ac yn sir sy'n ystyriol o drawma yn feysydd sydd angen i ni wneud gwaith pellach arnynt er mwyn gosod cyfeiriad a sylfeini cryf er mwyn cyflawni'r nod. Byddwn yn defnyddio yr adnodd un tro i sefydlu sail dystiolaeth, cwblhau gwaith ymchwil, darparu rhaglenni hyfforddiant a rhaglenni gwaith penodol yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r prosiectau canlynol yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith, felly byddai'n synhwyrol eu symud o Gwynedd Effeithlon i Gwynedd Gyfartal:
  - **Sicrhau tegwch i bawb -** prosiect sy'n pwysleisio ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a sicrhau tegwch a chynhwysiant. Dyma 9 nodwedd cydraddoldeb: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.
  - **Merched mewn arweinyddiaeth -** prosiect sy'n cryfhau ymdrechion i chwalu rhwystrau, annog cynrychiolaeth deg a chynhwysol mewn rolau arwain.

3.1.3. **<u>Prosiectau newydd</u>**

- Awgrymir ychwanegu'r ddau brosiect canlynol :
  - **Nôl i Wynedd (Gwynedd Gymraeg) –** Cadw a denu pobl ifanc a gweithlu medrus sy'n cryfhau cymunedau ac economi Gwynedd tra'n hybu defnydd y Gymraeg yw'r nod.

- **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd (Gwynedd Lewyrchus) –** Yr amcan yw gosod cyfeiriad clir i sicrhau twf economaidd y mae modd ei gynnal, gyda ffocws ar gefnogi busnesau, swyddi a buddsoddiad lleol, a hynny ar y cyd rhwng y Cyngor a'i bartneriaid.

3.1.4. **<u>Prosiectau lle mae ymrwymiad i danlinellu eu pwysigrwydd</u>**

***Gwynedd Yfory***

- **Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu i blant a phobl ifanc –** Atgyfnerthu pwysigrwydd darparu cyfleoedd cymdeithasu i blant a phobl ifanc drwy'r sir.

***Gwynedd Lewyrchus***

- **Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu** – Trafod sut mae modd cyflwyno'r bwriad i sefydlu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Sgiliau a Busnes i rhaglen waith y prosiect
- **Adfywio cymunedau a chanol trefi –** Canolbwyntio ar y meysydd lle mae gennym ddylanwad, ystyried beth yw'r farn yn lleol a mesur effaith adfywio ar y cymunedau.
- **Cadw'r Budd yn Lleol –** Drwy gynyddu gwariant y cyngor mewn cadwyni cyflenwi lleol, mae economïau a chymunedau yn cryfhau. Byddwn ni'n gwneud popeth y gallwn ni i ddwysau effaith hyn.

***Gwynedd Glyd***

- **Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr –** Sefydlu sut mae'r ymyraethau cyfredol wedi helpu a pha effaith sydd wedi deillio o'r gwaith.

***Gwynedd Ofalgar***

- **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned –** Cael canlyniadau gwell i unigolion a chymunedau drwy gyd-weithio mwy ac integreiddio gwasanaethau'n well.
- **Cynllun Awtistiaeth –** Rhoi mwy o bwyslais ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth; gwneud yn siŵr fod y gwasanaeth yn haws i gael gafael arno; bod mwy o gydlyniad i'r gefnogaeth a'i fod yn ymateb yn well i anghenion pobl awtistig a'u teuluoedd.
- **Llechen Lân -** Sefydlu Llechen Lân i blant yw'r dymuniad. Mae'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i wneud hyn yn cael eu nodi yn yr addasiadau. Mae'r hyn sydd angen ei wneud i weithredu'r argymhellion ar gyfer oedolion yno hefyd.

***Gwynedd Effeithlon***

- **Datblygu diwylliant y Cyngor -** Rydym am wella profiad trigolion sy'n ymdrin â'r Cyngor, sefydlu sut mae'r ymyraethau cyfredol wedi helpu a pha effaith sydd wedi deillio o'r gwaith.

3.1.5. **<u>Prosiectau sy'n gallu dod yn rhan o waith dyddiol adrannau am fod eu hamcanion gwreiddiol wedi eu cwblhau. (Bydd y prosiectau'n parhau i gael sylw o fewn trefn herio a chefnogi perfformiad yr Adrannau.)</u>**

***Gwynedd Yfory***

- **Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol –** Mae'r cerrig milltir ynghylch awdit, mapio a chanllaw ar gost anfon plant i'r ysgol wedi cael eu cwblhau. Bydd y camau nesaf yn cyfrannu at brosiect Cefnogi Pobl.
- **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**
  Ar ôl cymryd camau i adolygu a gwella caeau chwarae, sicrhau cyllid grant, cryfhau trefniadau cynnal a chadw, a pharhau i weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref, mae'r cerrig milltir ar gyfer yr elfen caeau chwarae wedi'u cwblhau.

*Gwynedd Glyd*

- **Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd -** Tîm Ynni bellach wedi'i sefydlu i ddarparu cyngor ac arweiniad i bobl, ac mae'r Bartneriaeth Tlodi Tanwydd yn dod â gwasanaethau ac asiantaethau perthnasol at ei gilydd.

*Gwynedd Gymraeg*

- **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant –** Rydym wedi buddsoddi yn y Canolfannau Iaith a mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith i wella cyfathrebu â rhieni am addysg Gymraeg, cryfhau cydweithio â phartneriaid cymunedol, a darparu hyfforddiant ac adnoddau trochi i staff y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn nawr yn rhan o ddarpariaeth tymor hir sicrhau ansawdd gwell i blant a phobl ifanc.

*Gwynedd Werdd*

- **Cymunedau Glân a Thaclus –** Mae'r tîm tacluso a'r trefniadau cydweithio gyda'r gymuned wedi'u datblygu.
- **Trafnidiaeth Gyhoeddus -** Mae'r prosiect wedi cynnal adolygiad strategol o'r rhwydwaith a chyflwyno cerbydau trydan.

*Gwynedd Effeithlon*

- **Cynllunio'r Gweithlu –** Trefniadau ymateb wedi eu sefydlu.
- **Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch -** Camau cryfhau trefniadau strategol ar gyfer Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi eu rhoi mewn lle o fewn y Cyngor.
- **Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol –** Trefniadau bellach yn eu lle o rhan rheolaeth ar y gyllideb a threfniadau arbedion.

3.2. Awgrymir bod gweddill y prosiectau o dan y saith maes blaenoriaeth presennol yn parhau o 2025/26.

3.3. Mae copi testun yn unig (Word) o'r Cynllun wedi ei addasu wedi ei atodi i'r adroddiad hwn fel **Atodiad 1.** Mae **Atodiad 2** hefyd yn dangos y dudalen flaen ddiwygiedig ar y wefan ar gyfer Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2026/27.

3.4. Rydym hefyd wedi ymgynghori gyda'r undebau llafur (fel sy'n ofynnol o dan y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol) er mwyn derbyn eu mewnbwn ar yr argymhellion ond heb dderbyn ymateb.

4. **Adnoddau**

4.1. Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir ar gyfer nifer o'r prosiectau o fewn y Cynllun. Heb yr adnodd mae'n bosibl na fydd modd i ni gyflawni'r hyn a nodir.

4.2. Mae camau rhagweithiol wedi eu cymryd i adnabod adnoddau ar gyfer y materion sy'n dod i mewn i'r Cynllun o'r newydd neu lle mae sgôp y gwaith wedi newid. Cafodd nifer o'r bidiau hyn eu cymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar y 10fed o Fawrth 2026 a cheir gwybodaeth bellach isod:

| **Cynllun/Prosiect** | **Adnodd** |
|---|---|
| Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder | £600,000 o refeniw parhaol wedi ei gynnwys yn y gyllideb refeniw sydd eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r |

| | |
|---|---|
| | Cyngor Llawn. £200,000 o gyllid refeniw un-tro hefyd wedi ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet ar y 10fed o Fawrth. |
| Gwynedd Gyfartal | £200,000 o gyllid refeniw un-tro wedi ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet ar y 10fed o Fawrth. |
| Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu. (Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd) | £1M o gyfalaf eisoes wedi ei ymrwymo gan y Cyngor ac Achos Busnes Amlinellol (OBC) am £10M o arian y Cynllun Twf wedi ei gytuno yn amodol gan Is Bwyllgor Economaidd y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar Fawrth 13eg. Bidiau am arian o ffynonellau eraill hefyd mewn llaw. |
| Nôl i Wynedd | £200,000 o gyllid refeniw un-tro wedi ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cabinet ar y 10fed o Fawrth. |
| Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd | Yn cael ei gyflawni o fewn adnoddau presennol yr Adran Economi |

5 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5.1 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant. Ein saith maes blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae ein Datganiad Llesiant ar gyfer 2023-28 yn parhau i fod yn gyfredol.

6 **Ymgynghoriad Cyhoeddus**

6.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus newydd ar yr adolygiad gan fod gwaith helaeth eisoes wedi'i wneud wrth lunio Cynllun y Cyngor 2023–28, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth o'r cynllun blaenorol, ymgysylltiad **'Ardal Ni'**, ac Asesiadau Llesiant Gwynedd a Môn.

6.2 Fel y nodir uchod cynhaliwyd sesiwn gweithdy ar gyfer yr Aelodau Etholedig ym mis Chwefror 2026. Yn gyffredinol, roedd cytundeb i'r addasiadau ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r adolygiad o'r Cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn.

7 **Deddf Cydraddoldeb 2010**

7.1 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 3**.

7.2 Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

**Barn y Swyddogion Statudol:**

i. **Y Pennaeth Cyllid**
Gallaf gadarnhau'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn rhan 4 o'r adroddiad yma. Mae Cynllun y Cyngor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae ei gadw dan adolygiad yn hanfodol. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniadau a geisir.

ii. **Y Swyddog Monitro:**
Mae Cynllun y Cyngor gan gynnwys unrhyw adolygu rhan o Fframwaith Polisi y Cyngor. Yn unol â'r gofynion statudol cyflwynir y strategaeth ar argymhelliad y Cabinet i'w fabwysiadu gan y Cyngor. Mae'r adroddiad yn amlygu y prosesau a gynhaliwyd ynghyd a'r asesiadau ac ystyriaethau statudol perthnasol mewn modd priodol. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y penderfyniad a geisir.

## 8 Barn yr Aelod Lleol

Ddim yn fater lleol.

## 9. Atodiadau

Atodiad 1 : Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2026/27 (fersiwn Word)
Atodiad 2 : Tudalen Flaen Cynllun y Cyngor ar y wefan
Atodiad 3 : Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Adolygiad 2026/27